Senedd Cymru / Welsh Parliament
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee
Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport
CWLC COV76
Ymateb gan FDA / Response from FDA

**Tystiolaeth FDA Cymru ynghylch effaith COVID-19 ar Sector Diwylliannol Cymru**

**Gorffennaf 2020**

**Cyflwyniad**
Undeb llafur annibynnol ar gyfer uwch weision sifil a gweithwyr proffesiynol yn y DU yw'r FDA. Mae ganddo fwy na 18,000 o aelodau ar draws y llywodraeth a'r GIG.

Mae'r FDA ar waith ar draws Cymru, gan gynrychioli gweision sifil ac uwch weithwyr proffesiynol sy'n gweithio i'r weinyddiaeth ddatganoledig, i gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru ac i adrannau Llywodraeth y DU, yn cynnwys Amgueddfa Cymru (AC) a Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LlGC).

Mae'r cyflwyniad hwn yn ymwneud yn benodol ag AC a LlGC.

**Beth yw effaith uniongyrchol Covid-19 ar y sector?**
Ar ôl i'r Llywodraeth gynghori y dylid cyfyngu ar fynediad cyhoeddus, caeodd AC a LlGC yn ddi-oed, gan ofyn i'w staff weithio gartref pan fo modd.

Un o'r effeithiau uniongyrchol sydd wedi dod i ran y ddau sefydliad yw colli llawer iawn o refeniw yn sgil ymwelwyr, sef £400,000 y mis ar hyn o bryd i AC.

Er bod modd gweld y Casgliadau Cenedlaethol yn rhad ac am ddim, mewn blynyddoedd diweddar mae AC a LlGC wedi llwyddo i ddatblygu a chynhyrchu mwy o incwm trwy gyfrwng amrywiaeth o weithgareddau masnachu, o siopau ac arlwyo i logi ystafelloedd ar gyfer digwyddiadau corfforaethol a phartïon preifat. Gwnaed hyn mewn ymateb uniongyrchol i leihad sylweddol a pharhaus mewn cymorth grant.

Dymuna FDA Cymru dynnu sylw at y modd ystwyth yr ymatebodd y sefydliadau i'r ffaith eu bod wedi gorfod cau, trwy greu cynnwys ar-lein hygyrch a thoreithiog, yn arbennig felly prosiect arsylwi torfol uchel ei fri AC i gasglu a chofnodi profiadau o fyw yng Nghymru yn ystod y pandemig.

Mae'r ddau sefydliad wedi cyflwyno cais llwyddiannus i'r Cynllun Cadw Swyddi dros gyfnod y Coronafeirws ac wedi rhoi nifer o'u staff ar ffyrlo. Cytunodd AC a LlGC i ychwanegu at gyflogau'r staff a roddwyd ar ffyrlo, er mwyn iddynt gael eu cyflog

yn llawn. Bu FDA Cymru yn cynorthwyo'r ddau sefydliad trwy'r broses, a chydag undebau eraill, lluniwyd cydgytundebau'n ymwneud â threfniadau ffyrlo.

Mae'r cymorth grant a gaiff y ddau sefydliad wedi lleihau'n sylweddol yn ddiweddar: £440,000 yn achos AC a £200,000 yn achos LlGC. Yn ychwanegol at hyn, mae'r ddau sefydliad wedi ysgwyddo costau ychwanegol nas cynlluniwyd o ran darparu offer i bobl weithio gartref a pharatoi safleoedd ar gyfer eu hailagor: £75,000 yn achos LlGC, a chyfanswm cyfunol o £250,000 yn achos wyth safle AC.

Mae'r ergydion ariannol annisgwyl hyn wedi dwysáu sefyllfa ariannol y ddau sefydliad – sefyllfa a oedd eisoes yn ansicr.

**Beth, yn ôl pob tebyg, fydd effeithiau hirdymor Covid-19 ar y sector, a pha gymorth sydd ei angen arno i ddelio â'r effeithiau hyn?**

Y disgwyl yw y bydd y cyfyngiadau ar nifer y bobl a ganiateir mewn mannau cyfyng, fel orielau arddangos, mewn grym am beth amser. Mae hyn yn ei gwneud hi fwy neu lai yn amhosibl barnu pa mor sydyn y bydd modd i'r sefydliadau ailgydio yn eu gweithgareddau codi refeniw.

Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd parhau â'r cyfyngiadau sylweddol ar ymgynnull yn arwain at lai o alw am ddigwyddiadau arbennig – am fisoedd, os nad blynyddoedd. Bydd hyn yn arwain at leihad mawr mewn incwm.

Ymhellach, efallai y bydd costau ychwanegol i'w cael o ran cludo gwrthrychau/gwaith celf dramor ac yn ôl ar gyfer arddangosfeydd, lle bydd rhagofalon iechyd a diogelwch ychwanegol ar waith o bosibl.

Bydd angen sicrhau iechyd ariannol parhaus y sefydliadau, a chynnal – neu hyd yn oed wella – llesiant y staff. Yn ein barn ni, byddai'n eithriadol o annheg disgwyl i'r staff dalu'r pris am y tanwario a welwyd o fewn y sector ers blynyddoedd.

Mae'n anodd asesu gwerth y sefydliadau hyn mewn termau economaidd, ond mae Cynllun Gweithredol 2018/19 AC wedi cyfrifo bod pob £1 a fuddsoddir yn y sefydliad gan Lywodraeth Cymru yn cynhyrchu £4 o wariant ychwanegol yng Nghymru, gan gyfrannu £83m o Werth Ychwanegol Gros at economi Cymru – y Gwerth Ychwanegol Gros mwyaf mewn perthynas ag unrhyw sefydliad diwylliannol

a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru.[1] Mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith fod cau AC wedi cael effaith sylweddol ar economi Cymru.

Ymhellach, mae'n amlwg fod gwerth diwylliannol AC a LlGC i'r wlad yn anfesuradwy.

Mae FDA Cymru yn credu'n gryf fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru fuddsoddi faint bynnag sydd ei angen yn AC a LlGC; er mwyn diogelu'r trysorau cenedlaethol sydd yn eu meddiant ac er mwyn sicrhau y bydd pawb yng Nghymru yn gallu parhau i gael mynediad at eu hanes diwylliannol.

**Pa wersi y gellir eu dysgu ar sail y ffordd y mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, cyrff hyd braich a'r sector wedi delio â Covid-19?**
Croesawodd FDA Cymru becyn achub diwylliannol Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ar 5 Gorffennaf. Fodd bynnag, go brin y bydd y £59m a ddyrennir dan y pecyn hwn i bob rhan o'r sector diwylliannol yng Nghymru yn gwneud rhyw lawer, os unrhyw beth o gwbl, i wrthdroi degawd a mwy o doriadau mewn cymorth grant uniongyrchol i AC a LlGC.

Mae graddfa'r colledion sy'n wynebu sefydliadau yn sgil Covid-19, o ran yr incwm a gynhyrchir ganddynt eu hunain, yn tynnu sylw at fethiant modelau cyllido presennol AC a LlGC – ceisio cynnig profiad o'r radd flaenaf i ymwelwyr trwy fuddsoddi cyn lleied â phosibl.

**Sut y bydd modd i'r sector esblygu ar ôl Covid-19, a sut y gall Llywodraeth Cymru gynorthwyo arloesi o'r fath i ddelio â heriau'r dyfodol?**
Mae FDA Cymru yn pwysleisio bod angen i'r model cyllido newid er mwyn cael un sy'n llai dibynnol ar nifer yr ymwelwyr. Er bod hyrwyddo gwerth y Casgliadau Cenedlaethol i'r genedl yn beth iawn i'w wneud, mae angen dod o hyd i ddull a all gynnig cymorth priodol i'r sefydliadau a'r staff a gyflogir ganddynt.

Rhaid i'r cymorth grant gynyddu'n sylweddol mewn termau real er mwyn rhoi sylfaen gadarn i'r sefydliadau ar gyfer diogelu treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog Cymru a sicrhau y bydd y Casgliadau Cenedlaethol yn parhau i fod yn hygyrch i bob dinesydd yng Nghymru.

[1] https://museum.Wales/media/46522/Operational-Plan-2018-19-FINAL.pdf

Senedd Cymru / Welsh Parliament
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee
Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport
CWLC COV76
Ymateb gan FDA / Response from FDA

Go brin y bydd gallu sefydliadau i godi'r un faint o arian ag a godwyd ganddynt mewn blynyddoedd diweddar yn dychwelyd at y lefelau a welwyd cyn y pandemig am sawl blwyddyn, os o gwbl. Nid yw hi mor syml ag ailagor a chynhyrchu arian yn syth. Dyna pam mae FDA Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru yn awr i gynyddu'n syth y cymorth grant a roddir i Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**Gareth Hills**

**Swyddog Cenedlaethol FDA Cymru**

fda CYMRU | WALES